## Beth nesaf?

Mae gan yr Awdurdod Lleol 7 wythnos i ystyried eich cais i ailystyried a gwneud penderfyniad.

Byddwn yn casglu barn y dysgwr a'r rhiant gan gynnwys unrhyw ddogfennau perthnasol.

Yn ystod y cyfnod hwn, gall yr Awdurdod Lleol ofyn am fwy o wybodaeth gan yr ysgol, gweithwyr iechyd proffesiynol a gwasanaethau plant.

Byddwn yn eich hysbysu'n uniongyrchol am y canlyniad a bydd hyn yn cael ei gadarnhau'n ysgrifenedig ar ddiwedd y cyfnod.

Os ydych yn dal yn anfodlon â'r canlyniad, mae gennych hawl i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru. Rhaid gwneud hyn o fewn 8 wythnos i benderfyniad yr ALl.

Mae rhagor o wybodaeth am y broses hon ar gael yn; https://tribiwnlysaddysg.llyw.cymru/

**Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch am ailystyriaeth neu fater sy'n ymwneud ag ADY, gallwch gysylltu â'n llinell gymorth a chyngor ar: Ffôn: 02920 872 731 E-bost: LlinellGymorthADY@caerdydd.gov.uk**

**Os hoffech chi gael cyngor annibynnol, gallwch gysylltu â SNAP Cymru. Dyma wasanaeth am ddim sy'n cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni plant a phobl ifanc sydd â/a allai fod ag anghenion dysgu ychwanegol. Gallwch gysylltu â nhw ar; Ffôn: 0808 8010608 neu yn www.snapcymru.org**

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

Crëwyd Hydref 2023

**Taflen 6**

Gwybodaeth i rieni

# Canllaw ar ROI'R GORAU I GYNLLUN DATBLYGU UNIGOL (CDU)

Mae Awdurdod Lleol Caerdydd yn annog dysgwyr, rhieni, ysgolion a gweithwyr proffesiynol i weithio mewn partneriaeth.



UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

# Beth sy'n digwydd pan nad oes angen Cynllun Datblygu Unigol (CDU) ar fy mhlentyn mwyach?

Fel rhan o'r cylch adolygu CDU, yn ystod cyfarfod sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, byddai trafodaeth gyda'r ysgol ac unrhyw weithwyr proffesiynol perthnasol cysylltiedig yn cynnwys adolygu a yw dysgwr yn parhau i fod ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) sy'n gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY), sy'n golygu darpariaeth addysgol neu hyfforddiant sy'n ychwanegol at, neu'n wahanol i'r hyn a wneir yn gyffredinol i eraill o'r un oedran. Os yw pawb sy'n rhan o'r cyfarfod yn cytuno y gellir bodloni anghenion y plentyn o fewn darpariaeth gyffredinol a thargedig yr ysgol erbyn hyn, yna gellir gwneud penderfyniad i roi'r gorau i'w gynllun datblygu unigol.

Dylid rhoi sicrwydd i chi fel y rhiant, gan ein bod yn gwybod y gallai fod gennych rai pryderon o ran rhoi'r gorau i'r CDU. Felly, bydd gwybodaeth am gymorth parhaus i fodloni anghenion eich plentyn yn cael ei thrafod gyda chi e.e. addysgu wedi'i deilwra a strategaethau cefnogol ac ati.

Os yw ysgol a gynhelir yn credu nad oes gan eich plentyn ADY sy'n gofyn am DDdY mwyach, RHAID iddi eich hysbysu chi fel y rhiant o'r penderfyniad a'r rhesymau drosto. Fel uchod, dylai hyn fod trwy drafodaeth gyda chi mewn cyfarfod adolygu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'i ffurfioli gyda hysbysiad ysgrifenedig.

Bydd yr hysbysiad ysgrifenedig yn amlinellu eich hawl fel rhiant i ofyn i'r Awdurdod Lleol ailystyried y mater. Rhaid i chi ofyn am hyn o fewn 4 wythnos i'r ysgol roi gwybod i chi am ei phenderfyniad. Fodd bynnag, byddem bob amser yn annog yr ysgol i gyfarfod â chi eto a thrafod ymhellach gyda'r nod o geisio datrys unrhyw anghytundeb.

## Rhesymau dros roi'r gorau i CDU

- Mae'r ysgol yn penderfynu nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY mwyach ac nid yw'r penderfyniad hwnnw'n cael ei herio'n llwyddiannus
- Mae'r dysgwr yn berson ifanc nad yw'n cydsynio i gynnal y CDU mwyach
- Mae'r plentyn neu'r person ifanc yn peidio â bod yn ddysgwr cofrestredig yn yr ysgol.
- Mae'r plentyn neu'r person ifanc yn cael ei gofrestru'n ddeuol ac mae ALl yn gyfrifol am y dysgwr
- Mae'r dysgwr yn derbyn gofal gan ALl yng Nghymru
- Mae ALl yn Lloegr yn dechrau cynnal Cynllun Gofal Iechyd Addysg
- Mae'r dysgwr yn cael ei gadw.

## Pryd na ddylid rhoi'r gorau i CDU:

- Cyn diwedd y cyfnod o 4 wythnos pan all rhieni ofyn i'r ALl ailystyried
- Os yw'r ALl wedi ailystyried y mater ac wedi penderfynu na ddylid rhoi'r gorau i'r cynllun

## Beth sy'n digwydd os ydw i'n anhapus gyda phenderfyniad yr ysgol nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY mwyach?

Pan fo plentyn, ei riant neu berson ifanc yn anfodlon â phenderfyniad ysgol a gynhelir nad oes gan y dysgwr ADY mwyach, disgwylir y byddai'r anfodlonrwydd hwn fel arfer yn cael ei ddatrys yn uniongyrchol gyda'r ysgol, drwy siarad â'r Cydlynydd ADY, neu drwy drefniant yr ALl ar gyfer datrys anghytundebau.

Mae gan blentyn, ei riant neu berson ifanc 4 wythnos i ofyn i'r ALl ailystyried penderfyniad yr ysgol a gynhelir. Cyn i'r ALl wneud y penderfyniad, rhaid iddo hysbysu'r ysgol o'r cais a gwahodd sylwadau gan yr ysgol. Mae'r 4 wythnos yn rhedeg o'r dyddiad y rhoddir hysbysiad i'r dysgwr a'i rieni.

## LLWYBR

Ysgol i gynnal cyfarfod sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gyda rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill i adolygu'r Cynllun Datblygu Unigol (CDU)

↓

Mae'r ysgol yn hysbysu'r dysgwr, ei rieni neu berson ifanc yn ffurfiol am y bwriad i roi'r gorau i'r CDU a'r rhesymau pam

↓

Rhoddir 4 wythnos i'r plentyn, ei rieni neu berson ifanc apelio yn erbyn y penderfyniad → Mae'r ysgol yn rhoi hysbysiad ffurfiol bod y CDU wedi dod i ben

↓

Mae'r ysgol a rhieni neu'r person ifanc yn cyrraedd y nod o ddatrys y pryder

↓

Os na chaiff ei ddatrys, gall rhieni hysbysu'r ALl am gais i ailystyried drwy'r Llinell Gymorth ADY ar; Ffôn: 02920 871731 neu e-bost: LlinellGymorthADY@caerdydd.gov.uk

↓

Bydd yr ALl yn cysylltu â'r ysgol ynghylch ailystyried → **CADARNHAU PENDERFYNIAD I ROI'R GORAU I CDU** → Gellir cyfeirio'r ysgol i gynnal y CDU

↓

**GWRTHDROI PENDERFYNIAD I ROI'R GORAU I CDU**

Rhoddir 8 wythnos i rieni apelio yn erbyn penderfyniad yr ALl a chyfeirio i'r Tribiwnlys Addysg